PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

# NEWYDDION Aber

RHIFYN 22 - Hydref 2015




2 Canolfan Milfeddygaeth Cymru



4 Darlithydd yn y Deg Uchaf



6 Prifysgol Ymwybodol



11 Swyddogion newydd



16 Yn ogystal â'r swydd bob dydd…




## Aberystwyth yn 40 Uchaf

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi dringo 50 safle yn nhabl cynghrair Prifysgolion y Byd 2015-16 y *Times Higher Education* a gyhoeddwyd ddiwedd mis Medi.

Mae Aberystwyth yn y band 301-350 o'r 800 o sefydliadau ledled y byd sydd wedi eu cynnwys, a hefyd wedi dringo i'r 40 uchaf yn y Deyrnas Gyfunol, i safle 39ain allan o 78.

Sail y tabl yw perfformiad prifysgolion mewn pum maes; addysgu, ymchwil, cyfeiriadau at waith academaidd gan eraill, incwm o ddiwydiant ac agwedd rhyngwladol. Cafodd Aberystwyth ganlyniadau rhagorol am ei hagwedd rhyngwladol (safle 162) a chyfeiriadau at waith academaidd gan eraill (safle 260).

Dywedodd yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o welliannau yn y tablau cynghrair, ac mae adlewyrchu'r hyn a welwyd yn nhablau *The Times / The Sunday Times Good University Guide* a'r *QS World University Rankings*. Mae'r cynnydd yn gadarnhad o'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r ymchwil a'r gwaith rhagorol sydd wedi ei wneud i wella'r profiad myfyrwyr yma yn Aberystwyth."

Tabl cynghrair prifysgolion y byd y *Times Higher Education* yw'r trydydd tabl cynghrair i'w gyhoeddi mewn ychydig dros bythefnos lle roedd safle Prifysgol Aberystwyth wedi gwella'n sylweddol.

Roedd Prifysgol Aberystwyth yn un o'r prif ddringwyr yn nhabl *The Times/Sunday Times Good University Guide* a gyhoeddwyd ar yr 20fed o Fedi, i fyny 14 safle, ac i fyny 100 safle yn y *QS World University Rankings* a gyhoeddwyd ar y 15fed o Fedi.


Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan y **Tîm Cyfathrebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffôn 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Ionawr 2016.**
Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 30 Tachwedd**.

NEWYDDION



Michal Mos Pennaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg Terravesta yn dangos plwg miscanthus wedi ei dyfu o had yn barod i'w blannu.

## £898k i IBERS i gynhyrchu tanwydd gwyrdd ynghynt

Mae gwyddonwyr o'r Brifysgol yn chwarae rhan allweddol mewn prosiect gwerth £1.8 miliwn i ddatblygu'r dechnoleg angenrheidiol i blannu'r cnwd ynni miscanthus o hadau.

Fel rhan o brosiect a arweinir gan Terravesta Assured Energy Crops ac a ariannwyd gan Agri-Tech Catalyst, bydd tîm o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn ymchwilio i sut i greu'r amodau gorau ar gyfer cynhyrchu hadau, gan dreialu nifer o fathau newydd i archwilio eu cynnyrch a'u haddasrwydd ar gyfer amodau'r Deyrnas Gyfunol.

## Fferm Penglais yn croesawu 700 o fyfyrwyr

Mae llety newydd £45m i fyfyrwyr wedi agor eu drysau i 700 o fyfyrwyr.Ysbrydolwyd dyluniad Fferm Penglais gan dirwedd a phensaernïaeth Cymru wledig, ac mae'n cynnwys llety myfyrwyr sydd gyda'r gorau mewn unrhyw brifysgol ym Mhrydain, mewn cyfres o adeiladau tri llawr gyda fflatiau i chwech neu wyth o fyfyrwyr mewn llety hunanarlwyo.

Dywedodd Jim Wallace, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Campws a Masnachol: "Mae ymateb myfyrwyr i'r adnoddau newydd y mae Fferm Penglais yn eu cynnig wedi bod yn wych ac mae'r Brifysgol yn falch iawn fod pob un o'r 700 o ystafelloedd sy'n barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn llawn."

Pan fydd Fferm Penglais wedi ei chwblhau, bydd yn cynnig llety i 1000 o fyfyrwyr. Bydd y 300 o ystafelloedd sydd yn weddill yn cael eu cwblhau eleni, ac ar agor i fyfyrwyr o fis Medi 2016.

## Agor Canolfan Milfeddygaeth Cymru

Agorwyd Canolfan Milfeddygaeth Cymru yn swyddogol gan Ddirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans, ar 29ain Mehefin 2015. Wedi'i lleoli ar hen safle Canolfan Ymchwil Filfeddygol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), sefydlwyd Canolfan Milfeddygaeth Cymru gan Iechyd Da, consortiwm o filfeddygaethau annibynnol yng Nghymru, ynghyd â Welsh Lamb and Beef Producers Ltd, a Phrifysgol Aberystwyth.

Gyda Rebecca Evans ar gyfer yr agoriad roedd yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth a Mr Phil Thomas, Cyfarwyddwr Iechyd Da.

Yn ddiweddar penodwyd Iechyd Da gan APHA fel trydydd parti i ddarparu archwiliadau post-mortem arbenigol o afiechydon newydd a rhai sy'n ailymddangos mewn anifeiliaid fferm. Bu'r gwasanaeth yn weithredol ers Ebrill 2015.

Drwy adeiladu ar archwiliadau o anifeiliaid fferm, bwriad Iechyd Da yw ehangu'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i gynnwys anifeiliaid anwes a rhywogaethau gwyllt, yn ogystal â datblygu ystod o wasanaethau labordy diagnostig i gynorthwyo rhaglenni dileu afiechydon a chefnogi ymarferwyr maes mewn diagnosis afiechydon.

Dywedodd Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog: "Rwy'n falch o agor Canolfan Filfeddygol Cymru, a fydd yn cryfhau'n sylweddol ac yn gwella cyfraniad pwysig y proffesiwn milfeddygol i fywyd gwledig yng Nghymru ac yn codi safonau iechyd a lles anifeiliaid. Bydd hefyd yn rhoi hwb i'r economi wledig drwy sicrhau swyddi technegol i'r ardal, bydd o fudd hefyd i'r economi ehangach drwy gefnogi ein cymunedau




Yr Athro April McMahon, Is- Ganghellor, yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Rebecca Evans, Swyddogol gan Ddirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd Llywodraeth Cymru ac Mr Phil Thomas, Cyfarwyddwr Iechyd Da.

ffermio, ac yn gaffaeliad i'r Deyrnas Gyfunol trwy gyfrannu data gwerthfawr i'r rhwydwaith gwyliadwriaeth."

Meddai'r Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru: "Bydd y Ganolfan yn chwarae rhan arwyddocaol yn diogelu anifeiliaid yng Nghymru ac yn gwneud cyfraniad pwysig i ddiwydiant ffermio gwydn a llwyddiannus, gan adlewyrchu swyddogaeth hanfodol y proffesiwn milfeddygol yng Nghymru."

Dywedodd yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Rydyn ni'n falch iawn bod Prifysgol Aberystwyth wedi gweithio mewn partneriaeth â diwydiant a milfeddygaethau preifat i sicrhau darpariaeth filfeddygol i amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn datblygu ei gallu ym maes iechyd anifeiliaid a phobl, sy'n gysylltiedig â'n gwaith ymchwil a'n dysgu arloesol ym meysydd amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd. Mae Canolfan Filfeddygaeth Cymru yn esiampl o bartneriaeth integredig mewn meysydd sydd yn hanfodol i economi cefn gwlad Cymru. Mae hefyd yn gam allweddol tuag at ein huchelgais o ddatblygu Ysgol Filfeddygaeth i Gymru yn Aberystwyth."

## COLOFN YR IS-GANGHELLOR



Rwy'n ysgrifennu hwn ar fore heulog braf. Ond mae hi bendant yn fis Hydref. Mae ychydig o naws yn yr awyr, ac er ymddengys megis ddoe ar y mefus ac asbaragws ym mhob man, erbyn hyn mae'n eirin, *courgettes* a chobiau india-corn i'w gweld ymhobman (efallai y dylwn ddechrau ychwanegu rysáit neu ddwy i golofn hon ...).

Rwy' wrth fy modd gyda'r adeg hon o'r flwyddyn. Rwy' bob amser yn meddwl amdani fel y Flwyddyn Newydd (does dim syniad gen i pam fod pobl yn gwneud ffws am fis Ionawr). Mae'r plant wedi mynd yn ôl i'r ysgol; mae'r myfyrwyr wedi dechrau neu ddychwelyd i'r Coleg neu Brifysgol; ac mae ein cylch blynyddol wedi dechrau eto. Ceir ymdeimlad amlwg o ddechreuadau newydd ac mae ein ffrwd Twitter yn llawn o'n myfyrwyr newydd yn mwynhau bywyd yn Aberystwyth.

Credwch neu beidio, mae hefyd yn golygu ei bod hi'n amser perffaith i fod cynllunio ar gyfer recriwtio myfyrwyr y flwyddyn nesaf, a meddwl am y darpar fyfyrwyr hynny fydd yn ymuno â ni yn 2016 a thu hwnt. Mae cydweithwyr ledled y Brifysgol wedi gwneud ymdrech godidog yn ystod Clirio eleni, ond bellach daw'r her fwyaf a'r cyfle mwyaf drwy sicrhau mwy o geisiadau o ansawdd uchel ar gyfer 2016 - ac mae'n rhaid i ni weld hyn fel swyddogaeth pawb a blaenoriaeth pawb.

Nid yw Aber ar gyfer pawb (mae rhai myfyrwyr yn bendant eisiau bod mewn dinas, ac nid ydym yn cynnig pob pwnc); ond pan mai ni yw'r dewis cywir, rydym yn gwybod ei fod yn gwneud gwahaniaeth rhyfeddol sy'n newid bywydau. Ac rydym yn gwybod o'r hyn ddywed ein cyn-fyfyrwyr bod yr hoffter hwn o'r Brifysgol a'r dref yn aros gyda nhw, fel yn wir y mae llawer o'r cyfeillgarwch a wnânt yma.

Fodd bynnag, os yw recriwtio a dod â myfyrwyr newydd rhagorol yn hanfodol i ni i gyd, i rai cydweithwyr mae'n gwbl greiddiol i'w rôl. Rydym yn gwario dros £5m y flwyddyn ar bobl a gweithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â recriwtio, marchnata a chyfathrebu. Mae hynny'n swm mawr. Mae'n rhaid i ni gadw buddsoddi yn y meysydd gwaith hyn – heb os nac onibai. Ond mae'n rhaid i ni hefyd fod yn sicr, fel sefydliad cyfrifol mewn cyfnod anodd, ein bod yn cael y gwerth gorau am yr arian hwnnw, ac ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n caniatáu ac yn annog syniadau a ffyrdd o weithio sy'n wirioneddol arloesol a gwella'r hyn a wnawn.

Felly, rydym wedi sefydlu Grŵp Noddwr lefel uchel i edrych, yn ystod y misoedd i ddod, ar yr hyn rydym yn ei wneud ym meysydd cyffredinol recriwtio, marchnata, a chyfathrebu, a sut y gallwn wneud hyd yn oed yn well yn y dyfodol. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan Neil Glasser, Cyfarwyddwr Athrofa IGHPP, ac mae ef a'r aelodau arall yn arbennig o awyddus i gasglu syniadau o bob rhan o'r Brifysgol, gan staff academaidd a chefnogaeth broffesiynol a myfyrwyr. Sut gallwn ni ledaenu'r newyddion da am ddatblygiadau fel ein buddsoddiad yn y Stâd, neu ein gwelliannau o ran cyflogadwyedd yn fwyaf effeithiol? Sut gallwn ni gyrraedd agenda darpar fyfyrwyr a'r rhai sy'n eu cynghori a'u dylanwadu, fel prifysgol sydd â dysgu ac addysgu rhagorol, a llwyddiant myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn?

Mae'r Grŵp Noddwr yn chwilio am eich barn am yr hyn rydym yn ei wneud yn dda, beth y gallem ei wneud yn well, ac am eich syniadau gwych ar wella recriwtio, marchnata a chyfathrebu. Gallwch gymryd rhan drwy anfon syniadau ac awgrymiadau i sponsorgroup@aber.ac.uk

Rydym hefyd yn dechrau meddwl am sut mae hyn yn bwydo i'r Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2017-22; ond mae hynny'n bwnc ar gyfer y golofn nesaf!

**Yr Athro April McMahon**, Is-Ganghellor

## NEWYDDION *parhad*

# Rho Wybod Nawr

Y semester hwn, mae'r Brifysgol yn rhedeg ymgyrch myfyrwyr newydd o'r enw *Rho Wybod Nawr* a gynlluniwyd i wella profiad y myfyrwyr yn Aberystwyth. Dyma'r Athro John Grattan, y Dirprwy Is-Ganghellor i esbonio mwy:

"Un o'n nodau allweddol yw cyfuno ein rhagoriaeth addysgu ac ymchwil gyda phrofiad rhagorol i fyfyrwyr. Mae *Rho Wybod Nawr* yn fenter hir dymor a lansiwyd ym mis Medi a'i nod yw ennyn diddordeb ein myfyrwyr i weithio gyda ni i ddatblygu eu profiad myfyrwyr.

Bydd yr ymgyrch yn ystod y semester hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sgwrs gyda'n myfyrwyr o'r ail a'r drydedd flwyddyn am ganlyniadau NSS 2015.

Bydd *Rho Wybod Nawr* hefyd yn rhoi cyfleoedd i annog deialog rhwng staff a myfyrwyr drwy amrywiaeth o weithgareddau ar draws sianelau traddodiadol a digidol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r tim prosiect wedi datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth ymhlith ein myfyrwyr gan gynnwys ffilm fer sydd wedi'i hanimeiddio.


Beth bynnag fo'ch rôl a man gwaith yn y Brifysgol rydych yn cyfrannu at brofiad y myfyrwyr yn Aberystwyth. Bydd yr wybodaeth a gawn yn sgìl ymgyrch *Rho Wybod Nawr* yn ein cynorthwyo i ddeall, myfyrio a gwneud gwelliannau er mwyn gwneud profiad Aber y profiad myfyrwyr gorau posib.

Gallwch wylio'r ffilm ar **www.aber.ac.uk/rhowybodnawr**

Rho Wybod Nawr

NEWYDDION

## Darlithydd o Aberystwyth yw'r ddegfed o blith y menywod mwyaf dylanwadol ym maes cyfrifiadureg



Cafodd Dr Hannah Dee, darlithydd Cyfrifiadureg yn y Brifysgol, ei henwi gan Computer Weekly fel y ddegfed fenyw fwyaf dylanwadol ym maes Cyfrifiadureg yn y Deyrnas Gyfunol.

Mae Dr Dee yn gyn ddirprwy gadeirydd BCSWomen, grŵp merched Sefydliad Siartredig Technoleg Gwybodaeth, ac mae'n cael ei chydnabod am ei gwaith yn sefydlu'r BCSWomen Lovelace Colloquium, prif gynhadledd y Deyrnas Gyfunol i ferched israddedig, sydd bellach yn ei seithfed blwyddyn. Meysydd ei hymchwil yw golwg gyfrifiadurol ar gyfer dadansoddi ymddygiad pobl, canfod a rhesymu cysgodion, ac agweddau myfyrwyr tuag at astudio cyfrifiadureg. Dr Dee yw'r academydd uchaf ei safle ar y rhestr, sydd bellach yn ei phedwaredd blwyddyn.

Mae hi'n ymddangos yn gyfochrog â ffigyrau nodedig gan gynnwys Joanna Shields, Is-Ysgrifennydd Gwladol Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ymgynghorydd ar yr Economi Digidol i'r Prif Weinidog, a Trudy Norris-Grey, rheolwr-gyfarwyddwr busnes sector gyhoeddus Microsoft yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop.

Wrth ymateb i'r cyhoeddiad, dywedodd Dr Hannah Dee: "Roeddwn wedi synnu cael fy nghynnwys ar y rhestr fer i fod yn onest, roeddwn yn edrych ar trydar bob yn hyn a hyn ac yna pan welais pwy oedd yn y safleoedd 21-50, roeddwn i'n weddol sicr nad oeddwn i wedi cyrraedd y 50 uchaf eleni. Wedyn aeth fy ffôn yn wallgof. Rwy'n credu mai fi yw'r academydd uchaf eleni, sy'n wallgof. Neis, ond gwallgof."

## Dihangfa'r Ddaear o grafangau rhewllyd yn y gorffennol pell

Mae tîm rhyngwladol o wyddonwyr, yn cynnwys yr Athro Michael Hambrey o'r Ganolfan Rhewlifeg, wedi darganfod sut gwnaeth ein planed ddianc o grafangau rhewgell fyd-eang tua 635 miliwn o flynyddoedd yn nôl.

Mae eu hymchwil, a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar yn y cyfnodolyn *Nature Geoscience*, mewn erthygl wedi ei harwain gan yr Athro Doug Benn o'r Ganolfan Brifysgol yn Svalbard.

Mae'r tîm, a gydlynwyd gan yr Athro Ian Fairchild o Brifysgol Birmingham, yn cynnwys gwyddonwyr o'r Deyrnas Gyfunol, Norwy, Ffrainc ac UDA.

Dywedodd yr Athro Mike Hambrey: "Mae'r prosiect cyffrous hwn wedi cyfuno sgiliau rhewlifegwyr, geogemegwyr, geoffisegwyr a modelwyr rhifiadol i ddatrys un o broblemau mwyaf anhydrin Daeareg.

"Roedd y gwaith maes yn Spitsbergen yn heriol ar amserau, yn enwedig pan fu rhaid i ni aildrefnu wedi i stormydd ddinistrio ein gwersylloedd, ond rydyn ni'n hapus gyda faint o ddata a gasglwyd.

"Ein papur newydd fydd y cyntaf o lawer, yn cyfeirio nid yn unig at Spitsbergen ond hefyd at yr Ynys Las lle buom yn gweithio yn ogystal."



## Achredig NASMA

Mae George Jones a Janet Hardy o Cymorth i Fyfyrwyr wedi ennill achrediad gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr, a gydnabyddir fel yr awdurdod arweiniol ar bob mater sy'n ymwneud â chyngor a chyllid myfyrwyr.

## Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr

Mae Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr wedi ennill Darparwr Cymeradwy Safonol y Sefydliad Mentora a Chyfeillio ar gyfer y cynllun Cymorth Mentora i Ddysgwyr (sy'n cefnogi myfyrwyr anabl a'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol) a'r cynllun Mentora Ffordd Hyn sy'n cefnogi israddedigion newydd yn bennaf.

Darparwr Cymeradwy Safonol (APS) yw'r safon ansawdd cenedlaethol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer pob math o brosiectau mentora a chyfeillio. Mae'r prosiectau sy'n bodloni gofynion y safon yn cael eu hachredu am dair blynedd.

## Y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad, Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol

Ochr yn ochr â newid rôl Dr Debra Croft, fel Cyfarwyddwr Cydraddoldeb, mae'r Ganolfan Ehangu Cyfranogiad, Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol newydd bellach yn cynnwys Cydraddoldeb ac wedi symud i'w chartref newydd ar y campws yng Nghanolfan Hwb Cwrt Mawr. Mae croeso i bawb ymweld - yn enwedig gyda syniadau newydd a syniadau am degwch ar draws y gwasanaethau, tu blaen a'r tu ôl i'r llenni, adrannau academaidd, staff a myfyrwyr. Bydd y Ganolfan yn cynnal Diwrnod Agored ym mis Tachwedd ac mae staff a myfyrwyr yn cael eu hannog i alw heibio am goffi a chacen.

NEWYDDION

# Graddio 2015



Yn ystod y pedwar diwrnod o 14-17 Gorffennaf, cynhaliwyd wyth o seremonïau graddio a chroesawyd dros 10,000 o raddedigion ynghyd â'u teuluoedd, eu cyfeillion a'u cefnogwyr. Yn ogystal â grŵp gwirioneddol adnabyddus o Gymrodyr Anrhydeddus, dyfarnwyd Graddau Anrhydeddus am y tro cyntaf.

Mae wythnos y graddio bob amser yn achlysur gwych, ac rydyn ni'n dymuno pob llwyddiant i'n graddedigion diweddaraf beth bynnag fyddant yn ei wneud nesaf.

## Cymrodyr

**Julia Gillard**

Gwnaed yr Anrhydeddus Julia Gillard, 27fed Prif Weinidog Awstralia, yn Gymrawd Prifysgol Aberystwyth ar 30 Mehefin. Ganed Ms Gillard yn y Barri ac yn 2010 fe'i hetholwyd yn Brif Weinidog Awstralia, y fenyw gyntaf yn y swydd, a bu yno tan 2013.

**Eurwen Richards**

Eurwen Richards yw'r fenyw gyntaf i fod yn Feistr Caws yn y Deyrnas Gyfunol, ac mae hi'n Gyn-Lywydd y Gymdeithas Technoleg Llaeth. Mae Cymdeithas Amaethyddol Cymru wedi enwi gwobr ar ei hôl – 'Gwobr Eurwen Richards am y Cawsiau Gorau o Gymru'.

**Robin Williams**

Ymchwilydd enwog ym maes ffiseg lled-ddargludyddion a nano-dechnoleg yw'r Athro Williams, mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol, a dyfarnwyd CBE iddo yn 2004 am ei gyfraniad amlwg i ymchwil mewn addysg uwch.

**Miguel Alario Franco**

Mae'r Athro Miguel Alario Franco yn ymchwilydd enwog mewn cemeg cyflwr soled ac yn gyn-ddarlithydd yn Aberystwyth. Ef yw Llywydd Academi Frenhinol y Gwyddorau Sbaen ac ef oedd sylfaenydd a llywydd cyntaf Grŵp Cemeg Cyflwr Soled Cymdeithas Cemeg Frenhinol Sbaen.

**Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth**

Yr Arglwydd Bourne, cyn-fyfyriwr y Gyfraith yn Aberystwyth, yw'r Is-Ysgrifennydd Seneddol ar gyfer yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, a Swyddfa Cymru. Mae'n aelod o Fwrdd Ymgynghorol Canolfan Aberystwyth ar gyfer Materion Cyfreithiol Cymreig ac yn Llywydd Anrhydeddus Dyfodol Ceidwadol Aberystwyth.

**Debbie Moon**

Debbie Moon, awdur arobryn ar gyfer y teledu a chyn-fyfyriwr Drama yn Aberystwyth, yw creawdwr a phrif awdur *WolfBlood*, cyfres deledu a enwebwyd am BAFTA sydd yn ei thrydydd cyfres ar CBBC.

**Francesca Rhydderch**

Mae Dr Francesca Rhydderch yn awdur arobryn ac yn gyn-fyfyriwr Saesneg o Aberystwyth. Daeth ei nofel gyntaf, *The Rice Paper Diaries* ar restr hir Gwobr y Clwb Awduron am Nofel Gyntaf Orau ac fe enillodd Wobr Ffuglen Llyfr y Flwyddyn yn 2014.

**Lyn Evans**

Dr Lyn Evans, y ffisegydd rhyngwladol enwog a ffigwr allweddol yn CERN, a arweiniodd y tîm a gynlluniodd, a adeiladodd ac a gomisiynodd y Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr. Dyfarnwyd iddo Wobr Ffiseg Sylfaenol Arbennig yn 2012 am ei gyfraniad tuag at ddarganfod boson Higgs.

**Iolo Williams**

Dechreuodd y cyflwynydd teledu bywyd gwyllt a'r naturiaethwr Iolo Williams weithio i'r RSPB yn 1985. Erbyn hyn mae'n gweithio i'r BBC ac S4C ac yn cyflwyno *Springwatch*, *Autumnwatch* a *Winterwatch*.

**Jeremy Bowen (2014)**

Cyflwynwyd y newyddiadurwr enwog a Gohebydd Dwyrain Canol y BBC, Jeremy Bowen, yn Gymrawd flwyddyn ar ôl iddo gael ei anrhydeddu yn ei absenoldeb. Methodd Jeremy Bowen â dod i'r seremoni y llynedd am ei fod yn gohebu ynglŷn â'r gwrthdaro yn Gaza.

## Doethuriaethau Er Anrhydedd

**Dylan Iorwerth,** Newyddiadurwr, awdur arobryn ac enillydd amryfal wobrau llenyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Huw Cathan Davies**, ffisegydd atmosfferig rhyngwladol enwog.

## Graddau Baglor Er Anrhydedd

**Bryn Jones,** cydlynydd Fforwm Gymunedol Penparcau.

**Rhian Phillips**, cyn-bennaeth Ysgol Gynradd Plascrug.

CHWYDDWYDR

# Prifysgol Ymwybodol

Ym mis Ebrill 2015 enillodd y Brifysgol wobr arian y safon iechyd corfforaethol, ac yn rhan o'r dyfarniad mae'r Brifysgol yn parhau i hyrwyddo iechyd a lles er mwyn creu gweithlu nodedig. Mae creu'r 'rhwydwaith ymwybyddiaeth' ac amcanu i ddod yn 'brifysgol ymwybodol' yn rhan allweddol o strategaeth iechyd a lles y brifysgol.

Addasiad seciwlar o arfer hynafol cysylltiedig â doethineb yw ymwybyddiaeth ofalgar, ac mae iddo fanteision economaidd ac iechyd cymdeithasol eang. Mae ymwybyddiaeth ofalgar yn offeryn cydnabyddedig sy'n gymorth i leddfu straen a phryder, i gynyddu dirnadaeth emosiynol ac i wella cyfathrebu. Oherwydd hyn rydyn ni'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ofalgar ledled cymuned y Brifysgol i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd. Un o amcanion y rhwydwaith ymwybyddiaeth ofalgar yw datblygu unigolion yn ymarferwyr fel y gallant ddefnyddio ymwybyddiaeth ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau bach.

> "Mae ymwybyddiaeth ofalgar yn ddull o fod yn ymwybodol bob eiliad o'n meddyliau, ein teimladau, ein cyffro corfforol a'r amgylchedd o'n cwmpas."

Yn syml, mae ymwybyddiaeth ofalgar yn golygu 'bod yn ymwybodol'. Mae'n golygu rhoi rhagor o sylw i'r eiliad hon, i'ch meddyliau a'ch teimladau eich hun ac i'r byd o'ch cwmpas, er mwyn gwella eich lles meddyliol. Gall fod yn ffordd i wrthsefyll y 'golwg twnel' a all ddatblygu mewn bywyd beunyddiol pan fyddwn yn brysur, yn flinedig a than straen ac yn peidio â sylwi ar y byd o'n cwmpas. Mae ymwybyddiaeth ofalgar yn ddull o fod yn ymwybodol bob eiliad o'n meddyliau, ein teimladau, ein cyffro corfforol a'r amgylchedd o'n cwmpas. Mae hefyd yn golygu derbyn, yn yr ystyr ein bod yn cymryd sylw o'n meddyliau a'n teimladau heb eu barnu; heb gredu, er enghraifft, fod yna ffordd 'gywir' neu 'anghywir' o feddwl neu deimlo ar unrhyw ennyd benodol.

Mae ymwybyddiaeth ofalgar yn deillio o elfen hanfodol o ymarfer Bwdhaidd a boblogeiddwyd yn y byd gorllewinol gan Jon Kabat-Zinn, a ddatblygodd raglen lleddfu straen yn seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar. Ond nid ymarfer crefyddol yw hyn; mae'n ymwneud yn hytrach ag atgoffa ein hunain i gymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd ar yr eiliad. Gellir ei ymarfer yn anffurfiol, wrth geisio canolbwyntio'n syml ar yr eiliad a pheidio â gadael i'n meddyliau grwydro, neu'n ffurfiol wrth fyfyrio'n dawel neu o dan gyfarwyddyd athro neu dâp sain. Yn wahanol i fathau eraill o fyfyrio nid yw'n ymwneud â gwagio'r meddwl, ond â sylwi beth mae'r meddwl yn ei wneud drwy'r amser.

Yn ddiddorol, bu Kabat-Zinn hefyd yn cynnal astudiaethau i ddefnyddio ymwybyddiaeth ofalgar i reoli poen, ac mae treialon meddygol wedi dangos manteision clinigol sylweddol i reoli poen. Nid yw hyn yn dweud bod ymwybyddiaeth ofalgar yn lleihau poen, ond yn hytrach y gall poen fod yn haws i'w reoli wrth i ni ddewis sut i adweithio iddo. Yn yr un ffordd ag y gall y ddannodd fod yn ingol o boenus pan ydych chi'n eistedd yn meddwl am y peth, ond yn poeni llai arnoch pan fyddwch yn brysur ac yn gallu gwthio'r peth i gefn eich meddwl, yn yr un modd gall ymwybyddiaeth ofalgar gyfleu'r un fantais mewn ffordd fwy ymwybodol. Mae'n ymwneud â sylwi ar ein meddyliau a'n teimladau am yr hyn ydynt, ond heb adael iddynt fynd yn llwyr ddifäol, a gwahaniaethu rhwng y ffordd rydyn ni'n meddwl ac yn teimlo a sut rydyn ni'n adweithio.

Yn 2010 cyhoeddodd y Sefydliad Iechyd Meddwl Adroddiad ymwybyddiaeth ofalgar a oedd yn dod i'r casgliad fod pobl sydd yn arfer Ymwybyddiaeth Ofalgar yn llai tebyg o brofi trallod, yn cynnwys iselder a phryder, eu bod yn cael meddyliau negyddol yn llai aml a'u bod yn fwy abl i gael gwared ohonynt pan oeddynt yn ymddangos. Dangoswyd hefyd fod gan bobl sy'n ystyriol ragor o hunan-barch a pherthnasau mwy boddhaol. Cawsant fwy o lwyddiant mewn bwriadau personol ac academaidd, a chynnydd mewn bodlonrwydd swydd, perfformiad a chynhyrchiant. Ceir hefyd fanteision iechyd corfforol; dangoswyd bod ymarfer myfyrio yn gyffredinol yn lleihau pwysedd gwaed a'r perygl o afiechyd cardiofasgwlaidd, a chyfyngu ar ddifrifoldeb afiechyd cardiofasgwlaidd pan fydd yn digwydd. Awgrymodd niwro-wyddonwyr bod

ymwybyddiaeth ofalgar yn newid strwythur yr ymennydd drwy gynyddu'r traffig rhwng yr hemisfferau de a chwith gan arwain at gynnydd mewn trwch cortigol sy'n golygu bod yr ymennydd yn cadw'i blastigrwydd hyd oedran hŷn.

Nid yw ymwybyddiaeth ofalgar yn y gweithle fodd bynnag yn golygu bod rhywbeth o'i le ar rywun neu salwch sy'n gofyn am driniaeth. Mae ymwybyddiaeth ofalgar wedi ei brofi'n glinigol yn rhywbeth sy'n helpu pobl i reoli eu straen, i ymateb yn dawel a gwrthrychol, i ddangos tosturi ac i adeiladu ymddiriedaeth gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'n rhywbeth sy'n dod yn boblogaidd dros ben – mae cwmnïau sydd eisoes wedi mabwysiadu'r model ymwybyddiaeth ofalgar yn llwyddiannus yn cynnwys Apple, Google, Twitter, Transport for London, Ebay, Yahoo, Procter & Gamble a Deutsche Bank.

Mae amryfal ddulliau gwahanol o ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar, gan gynnwys gorwedd a pherfformio 'sgan corfforol' lle rydych chi'n cymryd sylw o wahanol rannau o'r corff; ymarferion anadlu; ac ymarferion meddwl a sain sy'n golygu canolbwyntio ar synau arbennig yn yr ystafell. Cafwyd canlyniadau rhagorol i gyrsiau hyfforddi wyth wythnos i weision sifil a dreialwyd ar draws Cymru pan ddaeth hi'n fater o lunio polisi. Roedd y rhai a fu ar y cwrs yn fwy empathetig ac yn llunio polisi mewn modd mwy realistig gyda golwg ar y ffordd y mae pobl yn gweithredu'n wirioneddol, yn hytrach na'r ffordd yr hoffen ni iddynt weithredu yn ddelfrydol.

Mae'r tîm sydd nawr yn gweithio ar ymwybyddiaeth ofalgar yma yn Aberystwyth wedi adrodd wrth y Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan; prawf, pe bai galw am un, o ba mor boblogaidd y mae ymwybyddiaeth ofalgar yn dod. Yn dilyn treial dosbarth awr-ginio am wyth wythnos ar ymwybyddiaeth ofalgar yn yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi a sesiwn profi Fforwm Weinyddol, ymgorfforwyd ymwybyddiaeth ofalgar i'r rhaglen FfitRwydd yn y Ganolfan Chwaraeon, a gwahoddwyd y rhai oedd yn cymryd rhan i ddod i sesiynau awr ginio yng Nghanolfan y Celfyddydau. Bwriad y 'rhwydwaith ymwybyddiaeth ofalgar' yw dod â'r holl ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar at ei gilydd i un lle er mwyn gwneud yr ymarfer mor gynhwysol ag y bo modd i holl gymuned ein Prifysgol. Mae'r Brifysgol yn trefnu sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen FfitRwydd a hyrwyddir drwy'r ganolfan chwaraeon.

Pan ddaw hi'n fater o lansio 'Prifysgol ymwybyddiaeth ofalgar gyntaf y Deyrnas Gyfunol', mae'n ymddangos mai Aberystwyth yw'r lle amlwg. Mae bywyd ar yr arfordir Cambriaidd ychydig yn fwy pwyllog na phrysurdeb a ffwndwr dinasoedd mawr ac mae pobl yma yn nodedig am eu cyfeillgarwch. Gallai rhwydwaith o bleidwyr ymwybyddiaeth ofalgar fod yn rhan hanfodol o ddatblygiad llesiant a budd yn y gweithle.

Yn y pen draw mae ymwybyddiaeth ofalgar yn ymwneud â dewis. Mae cymaint o'r hyn a wnawn yn awtomatig, boed yn bwyta pecyn o fisgedi siocled wrth eich desg heb hyd yn oed eu blasu mewn gwirionedd, neu ddefnyddio'r lifft yn lle'r grisiau heb ystyried. Gobeithio y gallwn drwy ddod yn 'Brifysgol ymwybyddiaeth ofalgar' gyntaf y Deyrnas Gyfunol, roi peth o'r dewisiadau hyn yn ôl i chi.

mindfulness@aber.ac.uk

www.linkedin.com/grp/home?gid=8336407

www.aber.ac.uk/cy/supporting-staff/work/healthanddisability/health-wellbeing/



*Yr Athro Mark Whitehead*

Daeth Mark i Aberystwyth ym 1994 i astudio ar gyfer gradd BSc mewn Daearyddiaeth. Graddiodd gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn 1997 a dyfarnwyd gwobrau James Fairgreave a Gregynog iddo ar gyfer Daearyddiaeth. Ym mis Hydref 1997 dechreuodd ei PhD, gan archwilio dechreuad datblygiad cynllunio trefol cynaliadwy yn y Deyrnas Gyfunol. Fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn 2000, cyn cwblhau ei draethawd PhD yn 2001.

# Cyfarpar Ymchwil

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu prosiect i gynhyrchu a chynnal cronfa-ddata ganolog o'n cyfarpar a'n cyfleusterau ymchwil.

Cedwir cronfa-ddata fewnol y Brifysgol ar ein System Gwybodaeth Ymchwil Gyfredol (CRIS): www.aber.ac.uk/en/research/aber-research/pure

Rydym hefyd yn cyfrannu i http://equipment.data.ac.uk sy'n cael ei gyllido gan Gyngor Ymchwil y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg (EPSRC) ar gyfer cyrchu cyfarpar ymchwil yn unrhyw sefydliad ledled y Deyrnas Gyfunol sy'n cyfrannu.

Rydym wedi cyflawni cydymffurfiad aur yn ôl eu safonau trwy wneud ein cronfa-ddata mor hawdd ei chanfod a'i harchwilio ag sy'n bosibl. Gwnaed hyn trwy greu'r ap-gwe Java, "pureToOORDF", gan aelodau'r tîm yn RBI, sy'n gwneud y Brifysgol y Sefydliad Addysg Uwch cyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i alluogi darganfyddiad o'r fath yn uniongyrchol drwy PURE.

## Entrepreneur Wales Awards 2015

Mae Mr Tony Orme, Rheolwr Menter yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi wedi cael ei enwebu yn Bencampwr Busnes eleni yng Ngwobrau Entrepreneuriaeth Cymru. Rhoddir y wobr i berson neu sefydliad sydd yn gweithio'n galed i helpu entrepreneriaid arall i fod yn lwyddiannus yng Nghymru. Yn ystod ei 15 mlynedd yn y Brifysgol, mae Tony wedi meithrin gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr, graddedigion a staff a hynny yn llwyddiannus iawn. Cynhelir y seremoni wobrwyo ar 12 Tachwedd yng Nghaerdydd ac rydym yn dymuno'n dda i Tony.

# Rhaglen 'Ymchwil sy'n cael effaith'

Mae'r rhaglen 'Ymchwil sy'n cael effaith' Aberystwyth yn ceisio dangos y ffyrdd y mae ymchwil ragorol yn gwneud gwahaniaeth y tu hwnt i academia.

Mae hyn yn cynnwys hanes llwyddiannus ymelwa masnachol ar ymchwil yn ogystal ag ymrwymiad strategol gyda rhanddeiliaid sydd ddim yn academyddion.

Mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar hyn o bryd yn edrych am enghreifftiau newydd lle mae ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi cynhyrchu manteision o bwys i randdeiliaid y tu hwnt i academia.

Cysylltwch â Christine Szinner (chs37@aber.ac.uk) i roi peth gwybodaeth am eich ymchwil ac unrhyw effeithiau cysylltiedig os hoffech i'ch gwaith gael sylw ar y weddalen "Ymchwil sy'n Cael Effaith': www.aber.ac.uk/cy/research/excellence/impact

# Gwasanaeth Rheoli Data Ymchwil Prifysgol Aberystwyth

Lle rydych chi'n storio data o'ch prosiectau ymchwil? Ar weithfan? Ar yriant allanol? Ar USB? Neu ar y rhyngrwyd?

Mae risgiau a phroblemau yn gysylltiedig â phob un o'r rhain; yn amrywio o ddamweiniau i hacio. Beth fyddai'n digwydd pe baech yn colli data eich ymchwil? Nid â chydymffurfio â pholisi yn unig mae a wnelo Rheoli Data Ymchwil; mae'n helpu i gadw eich data yn ddiogel, ac yn hawdd i fynd ato pryd a phle bynnag rydych ei angen.



Mae'r Brifysgol yn ceisio lliniaru cymaint o risgiau a phroblemau ag sy'n bosibl trwy gychwyn ar wasanaeth Rheoli Data Ymchwil newydd (RhDY), gyda'r bwriad o gefnogi ymchwilwyr drwy gydol cylch bywyd yr ymchwil; o gynllunio'r angen am ddata i reolaeth weithredol a darparu storfa ganolog, ac yn olaf, archifo a chyhoeddi data mynediad agored.

Mae ein gwefan RhDY ar gael o www.aber.ac.uk/cy/research/good-practice/data-management ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am RhDY yn gyffredinol, ynghyd â gwybodaeth benodol am RhDY ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch drwy anfon e-bost i researchdata@aber.ac.uk

YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

# Dathlu partneriaethau Prifysgol Aberystwyth yn y digwyddiad 'Ariannu i Gydweithio'

Daeth bron i 60 o gynrychiolwyr ynghyd ar Gampws Penglais i ddathlu gweithio ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth ar y mentrau Mynediad i Radd Meistr (ATM), Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS), a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs).

Cefnogir y prosiectau KESS ac ATM gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru ac maent wedi bod yn hynod o lwyddiannus. Ers 2009, cefnogodd ATM a KESS 207 ac 86 o fyfyrwyr yn ôl eu trefn a oedd yn gweithio ar brosiectau ôl-raddedig yn rhan o Raddau Meistr ac Ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Elwodd 107 o fusnesau a leolwyd yn ardal Gydgyfeirio Cymru ar yr ymchwil yn ystod cyfnod y prosiect ATM, a manteisiodd 67 arall ar y fenter KESS.

Ar ô cwblhau KESS yn llwyddiannus gyda graddfa llwyddiant disgwyliedig o 90%, roedd yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi wrth ei bodd yn cyhoeddi lansio KESS 2, yn amodol ar gyllid, a fydd yn parhau i gefnogi prosiectau ymchwil cydweithredol gyda phartneriaid eraill yn Ardal Gydgyfeirio Cymru.

Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd yn weithgar yn y cynllun cefnogi busnes Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) a gefnogir gan y llywodraeth ac a reolir gan Innovate UK ar ran amryw sefydliadau sy'n ei noddi. Dangosodd yr Ymgynghorydd KTP Rhanbarthol sut y gall KTP gynorthwyo sefydliadau o bob maint ac o bob sector ddiwydiannol i gael at wybodaeth arbenigol er mwyn taclo cyfle neu her strategol bwysig.

Siaradodd Steve Keyworth, Cyfarwyddwr Systemau Amgylcheddol a leolir yn Aberystwyth, sydd wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau ymchwil gyda Phrifysgol Aberystwyth, gan gynnwys ATM, KESS, a KTP, am fanteision gweithio mewn partneriaeth. O ganlyniad i'r cydweithio tymor hir hwn, mae Prifysgol Aberystwyth mewn partneriaeth â Systemau Amgylcheddol, yn ddiweddar wedi lansio canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol newydd, Canolfan Aberystwyth ar gyfer Monitro'r Gofod a'r Ddaear (ACSEM), a lansiwyd yn swyddogol yn y gynhadledd




Space Enabled Futures yn Lerpwl.

Cefnogir KESS ac ATM gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.

# Wythnos Cychwyn Busnes

Cynhaliodd y Brifysgol ei 'Hwythnos Cychwyn Busnes' blynyddol yn ddiweddar, wythnos o weithgareddau dwys i roi i entrepreneuriaid potensial yr offer angenrheidiol i droi syniad da yn fenter busnes newydd ac ymarferol.

Ariannwyd Wythnos Cychwyn Busnes 2015 gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Canolfan Menter Canolbarth Cymru (rhan o'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ar gyfer Cymru).

Roedd yr Wythnos Cychwyn Busnes yn agored, fel bob amser, i fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig; graddedigion; aelodau'r staff; busnesau bychain lleol ac i bobl leol gyda diddordeb mewn cychwyn busnes.

Cyflwynwyd gweithdai gan arbenigwyr o'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni: Antur Teifi; Menter a Busnes; Llywodraeth Cymru; Digital Marketing Mix ac IPS Consulting.

Gwahoddwyd dirprwyon yr Wythnos Cychwyn Busnes i ginio canol dydd bob diwrnod i rwydweithio, cyfle delfrydol i "wneud busnes" ymysg ei gilydd ac i greu cysylltiadau defnyddiol. Hon, hyd y gwyddom ni, yw'r unig Raglen Cychwyn Busnes o weithgareddau dwys yng Nghymru o hyd.

**Roedd yr wythnos yn cynnwys:**

- 10 sesiwn dull gweithdai, yn rhoi sylw i liaws o bynciau pwysig i rai sy'n cychwyn busnes, gan gynnwys: marchnata; marchnata digidol; cynllunio a rheoli cyllidol; prisio; sgiliau gwerthu a rhwydweithio.
- Gwahoddwyd 3 model busnes hefyd a ddarparwyd gan ein partner, Menter a Busnes, i gyflwyno eu busnesau i'r dirprwyon yn ystod yr wythnos.
- Ar gyfartaledd daeth 22 o bobl i bob un o'r deg sesiwn (cyfanswm o 220).
- O'u plith roedd 50% yn bobl ifanc (o dan 25 mlwydd oed).
- Roedd y dirprwyon yn dod o 10 adran academaidd wahanol: Ysgol Rheolaeth a Busnes; IBERS; Cyfrifiadureg; Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes; y Gyfraith; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Celf; Hanes; Astudiaethau Gwybodaeth a Daearyddiaeth ac o 4 adran gwasanaeth: Ymchwil, Busnes ac Arloesi; Cymorth Myfyrwyr; y Ganolfan Chwaraeon a Datblygiad a Chysylltiadau Alumni.
- Daeth 8 o fusnesau bach lleol i'r gweithdai.




# "Losing Control":

## Beth all Technoleg Wisgadwy ei ddysgu inni am y Rhamantwyr

Richard Marggraf Turley a Reyer Zwiggelaar

*"I've got chills, they're multiplying,"* a ganodd John Travolta, wrth ddawnsio gydag Olivia Newton John ar ddiwedd y ffilm gerdd fawreddog honno, *Grease*, yn 1978. Gallai Travolta - neu yn hytrach ei gymeriad, Danny Zuko - bron â bod yn hyrwyddwr cynnar dros fudiad "yr Hunan Mesuredig", sef yr enw a ddefnyddir gan y bobl sy'n defnyddio biometreg i gofnodi cymaint o wybodaeth â phosib am agweddau corfforol ar eu bywydau beunyddiol. Yn ogystal â mesur ein tymheredd (ias oer, gwres) gellir hefyd mesur cyfradd curiad y galon, dargludedd y croen, lefelau siwgr yn y gwaed ac - yn fwyaf diweddar - hwyliau'r unigolyn, a'u cofnodi a'u dadansoddi i chwilio am dueddiadau. I rai hunan-fesurwyr - neu "gorff-hacwyr" - y nod yw byw bywydau hapusach, iachach a mwy cynhyrchiol. Mae rhai pobl eraill yn ymddiddori yn llwyr yn y llif o ddata sy'n deillio o'u corff eu hunan. Beth bynnag, erbyn heddiw, os ydych am gael gwybod sawl 'ias oer' sydd gennych, a pha mor gyflym maent yn lluosi, yn union, y cwbl sydd ei angen yw cip ar eich oriawr glyfar neu'ch ap iechyd-a-ffitrwydd ar eich ffôn.


Nid Danny oedd yr un cyntaf - o bell ffordd - i sylwi bod newidiadau corfforol yn digwydd yn ei gorff mewn ymateb i ysgogiad cryf (sef, yn yr achos hwn, Olivia Newton-John yn ei gwisg dynn ddu). Gallwn olrhain y diddordeb mawr hwn yn ymatebion y corff i ysgogiadau gweledol ac ysgogiadau'r dychymyg yn ôl i gyfnod y Rhamantwyr ym Mhrydain, sef y 1780au i'r 1820au, os nad ynghynt. Yn y cyfnod hwnnw, gwelwyd ffurf boblogaidd newydd ym meysydd celf a llenyddiaeth, sef y Gothig. Ei nod oedd creu gwefr a sioc a fyddai'n corddi'r emosiynau; synhwyron o bob math, mewn gwirionedd, cyhyd â'u bod yn rhoi'r 'gwyliwr' - sef, yr Hunan - wrth ganol y profiad. *"O for a Life of Sensations!"*, datganodd y bardd John Keats, yn lleisio agwedd bwysig ar ysbryd yr oes.

Credai ysgrifenwyr ac arlunwyr Rhamantaidd fod natur a chelfyddyd "aruchel" - unrhyw beth a oedd yn cyfleu anferthwch, maint, yr hollgynhwysol - yn ysgogi arwydd corfforol ac emosiynol penodol (arswyd), y gallai pobl eraill ei "ddarllen" ar ffurf gwres ar y talcen, diffyg anadl, neu fochau gwritgoch. Aeth y ffasiwn ar led ymhlith y cyhoedd a oedd yn awyddus i brofi'r newidiadau hyn drostynt eu hunain, a hynny mewn modd hunanymwybodol. Byddai'r selogion yn cerdded am filltiroedd i gael sefyll ar y union fan i gael profi i'r eithaf effaith y bendro ar ben dibyn, neu i syllu i fyny ar raeadr daranllyd, neu i fyfyrio uwchben adfeilion tywyll abaty canoloesol. Gartref, yng ngoleuni canhwyllau, byddai'r darllenwyr brwd yn troi tudalennau'r nofel arswydus ddiweddaraf gan ryfeddu at gynlluniau ysgeler rhyw fynach nwydus neu ddrychiolaeth annaearol, neu ymgolli'n llwyr mewn llun ysgythriad o donnau cawraidd a throbyllau dyfrllyd, duon, diwaelod. Y nod oedd gorlwytho'r synhwyrau, dileu'r Hunan. Yng ngeiriau Dany Zuko, y nod oedd "losing control" - gan ymhyfrydu ym mhob munud ohoni!

Efallai mai Rhamantiaeth sydd biau'r unigolyn Hunan Mesuredig (ffuglenol) cyntaf. Yn 1816, brasluniodd Mary Shelley ei nofel othig enwog, *Frankenstein*, wrth i'r tywydd gwael ei chadw dan do ar lannau Llyn Genefa gyda Percy Shelley, yr Arglwydd Byron (a oedd wedi ymalltudo'i hunan o Brydain), a meddyg Byron, sef y Dr Polidori - awdur *The Vampyre* (1819), y llyfr a ysbrydolodd lu o gyfresi teledu o *Buffy* i *The Strain*. Yn ogystal â pheri iasau oer yn y darllenwyr, gwnaeth clasur Mary hefyd ymdrin â sut mae'r nerfau a'r gïau - synhwyrfa'r corff, sef yr offer synhwyro - wedi cael eu rhoi at ei gilydd yn y lle cyntaf. Mae creadur Frankenstein - sydd ag obsesiwn am sut y'i rhoddwyd at ei gilydd, am y cyswllt rhwng y corff, y meddwl a'r emosiynau - yn ymgorfforiad cynnar o fio-hacio ac yn broto fio-haciwr.

Mae'r agwedd fasnachol ar hunan-gofnodi heddiw - meddyliwch am fandiau arddwrn biometrig megis Apple Watch, Android Gear, Nike+ FuelBand, Jawbone a Fitbit - yn deillio o'r degawd pan aeth *Grease* i frig siartiau'r ffilmiau. Go brin y gellid galw'r offer yn 'symudol', ond fe'i defnyddid gan ymchwilwyr a ddeallai botensial dadansoddi data personol i gydlynu gwybodaeth ddefnyddiol am ffordd-o-fyw pobl. Dim ond yn y blynyddoedd diweddar, wrth i'r cydrannau fynd yn llai-lai eu maint, daeth mudiad yr Hunan Mesuredig yn rhan o'r brif ffrwd. Mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio eu horiawr glyfar i "ddrilio i lawr" i'w hystadegau loncian, eu patrymau cysgu a chyfradd curo eu calon yn gwneud hynny heb feddwl amdanynt eu hunain fel bio-hacwyr erbyn hyn. Ac mae hynny'n awgrymu bod hunan-ddadansoddi, neu hunan-wyliadwriaeth, yn prysur fynd yn rhan o'r drefn arferol. Yn wir, ychydig iawn ohonom sy'n oedi i feddwl am beryglon posib gadael i gymaint o wybodaeth am ein ffitrwydd neu ein harferion beunyddiol gael ei chloddio gan bobl eraill. Heb sôn am unrhyw faterion cysylltiedig â phreifatrwydd personol, mae'n bosib bod cwmnïau rhywle sy'n chwilio am wybodaeth am dueddiadau yn ein data iechyd y byddai'n well gennym beidio â'i rhannu â nhw.

A oedd y Rhamantwyr yn iawn am y cyswllt rhwng ysgogiadau i'r emosiynau neu'r dychymyg a'r ymateb corfforol? Bydd fy nghyfaill a'm cydweithiwr yn y Brifysgol, yr Athro Reyer Zwiggelaar (Cyfrifiadureg) a minnau yn cynnal digwyddiad yn ymdrin â chelf a dadansoddi biometrig yn rhan o ŵyl genedlaethol y dyniaethau "Being Human" eleni. Cynhelir ein sbloetsh Gothig mawreddog, "Y Rhamantwyr Mesuredig", yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth, rhwng 11 y bore a 3 y prynhawn, ddydd Sadwrn 14 Tachwedd. Os teimlant yn ddigon dewr, bydd croeso i'r cyhoedd fynd i'r *Vortex*, sef llecyn tywyll lle y dangosir delweddau Gothig iddynt. Wrth i'w Hunan gael eu dileu'n llwyr (gobeithio), bydd Reyer a minnau'n defnyddio pecyn o offer biometrig a luniwyd yn arbennig i fesur unrhyw newidiadau yng nghyfradd curo'r




galon, ac i gyfrif iasau oer (a'r rheini'n lluosi neu fel arall). Byddwn hefyd yn trafod y goblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol ehangach i offer biometrig gwisgadwy a thechnolegau hunan-gofnodi eraill. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim, ac mae croeso i bawb.

**Yr Athro Richard Marggraf Turley** yw Athro Cyswllt â Dychymyg y Cyhoedd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mae'n dysgu yn Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Ysgrifennodd sawl llyfr am y beirdd Rhamantaidd, a'i lyfr diweddaraf yw *The Cunning House*, nofel dditectif ac iddi elfennau gothig, wedi'i gosod yn 1810.

**Yr Athro Reyer Zwiggelaar** yw Pennaeth Ysgol Graddedigion Prifysgol Aberystwyth ac mae'n Athro yn yr Adran Gyfrifiadureg. Mae ei ymchwil yn cynnwys dadansoddi delweddau meddygol i helpu radiolegwyr yn eu hasesiadau ac i ddadansoddi emosiynau o bell.

*"Y Rhamantwyr Mesuredig": Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth, 11am–3pm, Dydd Sadwrn, 14 Tachwedd 2015. Mynediad am ddim. Does dim angen archebu ymlaen llaw.*

**NEWYDDION Y MYFYRWYR**

# Cynllunio ar gyfer myfyrwyr newydd a Swyddogion newydd



*Eleri Wyn, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu*

Rwy'n wrth fy modd yn cael cyflwyno'r tîm sabothol newydd am y flwyddyn i ddod: Lewis Donnelly yn Llywydd, Lauren Marks yn Swyddog Addysg, Kelly Keat yn Swyddog Gweithgareddau, Ieuan Gregory yn Swyddog Lles a Hanna Medi Merrigan yn Llywydd UMCA & Swyddog Materion Cymreig:

**Lewis Donnelly: Llywydd**
Daw Lewis yn wreiddiol o Ben-y-bont ar Ogwr a bu'n astudio Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Eleni bydd Lewis yn arwain y tîm swyddogion, yn cynrychioli holl fyfyrwyr Aberystwyth ac yn sicrhau bod llais y myfyrwyr i'w glywed ar bob lefel.

**Lauren Marks: Swyddog**
Astudiodd Lauren, sy'n dod yn wreiddiol o Rugby yn Swydd Northampton, Geneteg. Bydd Lauren yn cynrychioli myfyrwyr ar bob peth sy'n ymwneud ag addysg ac yn gweithio gyda Chynrychiolwyr Athrofeydd.

**Kelly Keat: Swyddog Gweithgareddau**
Daw Kelly yn wreiddiol o Bude yng Nghernyw a bu'n astudio Gwyddor Chwaraeon & Ymarfer Corff. Bydd yn gweithio i greu cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn chwaraeon, cymdeithasau a gwirfoddoli.

**Ieuan Gregory: Swyddog Lles**
Mae Ieuan, a astudiodd Hanes ac Addysg, yn dod yn wreiddiol o Landeilo. Bydd yn datblygu'r darpariaethau lles ar gyfer myfyrwyr, gan dalu sylw i feysydd megis darpariaeth iechyd meddwl, tai myfyrwyr a gwneud cymorth yn fwy hygyrch.

**Hanna Medi Merrigan: Llywydd UMCA &a Materion Cymreig**
Astudiodd Hanna, sy'n tarddu o Bontyberem yn Sir Gaerfyrddin, Gymraeg Proffesiynol. Mae ei dyletswyddau'n cynnwys cynrychioli myfyrwyr Cymraeg a threfnu digwyddiadau ar gyfer y gymuned Gymraeg.

Erbyn i'r golofn hon gael ei hargraffu, bydd y tîm newydd yn eu swyddi yn barod, felly pob lwc iddynt.

Peidiwch ag anghofio edrych ar ein gwefan a sianelau cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.



*Swyddogion sabothol newydd Undeb y Myfyrwyr (o'r chwith): Hanna Medi Merrigan, Ieuan Gregory, Lewis Donelly, Lauren Marks a Kelly Keat*

ADNODDAU DYNOL

# Safon Iechyd Corfforaethol - Arian i droi'n aur

Yn dilyn ein llwyddiant yn ennill safon Efydd yn 2014 ac Arian yn 2015 mae Grŵp Llywio Iechyd Corfforaethol y Brifysgol wedi gosod targed o weithio tuag at ennill y safon Aur.

Cymeradwywyd y Brifysgol am y gwaith rhagorol a wnaed i gynyddu a hyrwyddo iechyd a lles ymhlith staff a myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys gwaith a wneir ar ymwybyddiaeth o straen, hyrwyddo dewisiadau bwyta'n iach yn y bwytai a mentrau Iach a Heini.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn ag iechyd a lles staff y Brifysgol, anfonwch e-bost i: wellbeing@aber.ac.uk



*Aelodau staff yn dathlu derbyn Gwobr Efydd y Safon Iechyd Gorfforaethol a gyflwynwyd i'r Brifysgol ym mis Mawrth*

## Arolwg iechyd a lles

Yn rhan o'r arolwg Iechyd a Lles a lansiwyd yn Chwefror 2015, mae Adnoddau Dynol wedi cynnal 3 sesiwn gweithdy i staff fod yn rhan o ddadansoddi casgliadau'r arolwg. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i dynnu ffactorau allweddol o'r arolwg a fydd yn arwain at gwmpasu cydbwysedd gwaith a bywyd adeiladol, cymhelliant, ymrwymiad a gweithlu ymroddedig.

Bydd casgliadau'r arolwg Iechyd a Lles ar gael yn Newyddion Aber maes o law.

## Datblygiad polisi

Mewn cydweithrediad â'r tair undeb llafur gydnabyddedig, rydyn ni wedi lansio'n ddiweddar y polisi amser hyblyg a'r polisi gwyliau blynyddol ychwanegol. Mae'r ddau bolisi yn darparu pecyn o fanteision hyblyg sy'n cefnogi'r cyflogedig a chynllun adfer y Brifysgol. Yn Awst bydd y polisi Hyfforddi a Mentora yn cael ei gychwyn.

Mae'r polisïau canlynol sydd eisoes ar gael wedi'u diweddaru yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth ac maent yng nghylch cymeradwyo'r Brifysgol. Maent yn cynnwys y polisi gweithio hyblyg, gwyliau di-dâl a'r polisi ymddeol hyblyg.

Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygiad polisi ar gael yn:
www.aber.ac.uk/en/hr/policy-and-procedure/

## Stonewall

Mae gwaith ar y gweill ar gyfer achrediad Stonewall y Brifysgol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Adnoddau Dynol.

## Adolygiad tâl cyfartal 2014/2015

Cyflwynodd y Brifysgol yr adolygiad Tâl Cyfartal i'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 21 Mai 2015. Cwmpas yr adroddiad yw sicrhau bod y Brifysgol yn ymdrechu i sicrhau bod ganddi system deg sy'n rhoi tâl cyfartal i staff am gyflawni gwaith cyfartal. Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael i'w lawrlwytho o wefan Adnoddau Dynol.

## Dyrchafiadau Academaidd 2015

Gwelir staff academaidd yn cyflwyno eu ceisiadau ar gyfer y cylch blynyddol o Ddyrchafiadau Academaidd yn Awst i'w hystyried gan y panel ym mis Tachwedd.

Ers yr adolygiad yn 2012, mae'r cylch Dyrchafiadau Academaidd wedi gweld cynnydd parhaus yn y nifer o geisiadau gan aelodau'r staff; ymgeisiodd 42 aelod o'r staff yn 2012 a 75 yn 2014. Yn 2015 mae nifer yr aelodau o'r staff sy'n dangos diddordeb wedi codi i 94.

## Rhoddwyd Adnoddau Dynol ar restr fer Gwobrau Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Times Higher Education

Yn Ebrill, rhoddwyd Adnoddau Dynol ar y rhestr fer am Wobr Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Times Higher Education am y gwaith a ymgymerwyd a oedd yn cynnwys cynllunio gweithlu, mentrau gwobrwyo a chydnabod a'r gwaith ar y safon Iechyd Corfforaethol. Cynhaliwyd y seremoni gwobrwyo yng Ngwesty Tŷ Grosvenor, Llundain ar 18 Mehefin 2015. Er na lwyddwyd i ennill y tro hwn, mae'n dangos yr ymrwymiad a'r ymroddiad i fod yn flaengar mewn ymarferion Adnoddau Dynol.

NEWYDDION

# Dathlu Amrywiaeth Rhagoriaeth mewn Addysgu

Y thema ar gyfer cynhadledd Dysgu ac Addysgu eleni oedd “Dathlu Amrywiaeth Rhagoriaeth mewn Addysgu”. Mae Mary Jacob yn Ymgynghorydd E-ddysgu ac yn aelod o Grŵp E-Ddysgu Gwasanaethau Gwybodaeth‘, a hi fu’n cydlynu’r gynhadledd eleni. Mae hi’n siarad am amcanion y gynhadledd, yr uchafbwyntiau a datblygiadau yn y dyfodol.

**Beth yw’r syniad y tu ôl i’r gynhadledd?**
Y diben yw adeiladu cymuned o ymarferwyr - staff academaidd, myfyrwyr, gweinyddwyr - sydd yn dod at ei gilydd i rannu syniadau ac ysbrydoliaeth. Roedd y gynhadledd yn dathlu yr amrywiaeth eang o arferion addysgu da gan staff Aber.

Eleni croesawyd Alison James o Brifysgol y Celfyddydau yn Llundain, yn ôl i Aberystwyth. Alison yn Deon Cyswllt ar gyfer Dysgu ac Addysgu yn yn ei phrifysgol, yn Gymrawd Addysgu Cenedlaethol gyda’r Academi Addysg Uwch, ac yn raddedig mewn Ieithoedd Modern o Aberystwyth. Mae hi’n darparu model rôl ar gyfer myfyrwyr Aber, yn dangos faint y gallant ei gyflawni.

Roedd y gynhadledd yn ymdrech tîm go iawn. Cyfrannodd y Grŵp E-ddysgu cyfan i’r llwyddiant a darparodd swyddfa’r Dirprwy Is-Ganghellor y cyllid.

**Sut mae’r gynhadledd yn cyfrannu at y profiad dysgu?**
Mae’n ymwneud â gwella profiad myfyrwyr. Enillodd ein prif siaradwr mewnol, Dr Ayla Göl o’r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Wobr Rhagoriaeth mewn Dysgu yng Ngwobrau Dysgu ac Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr.

Roedd hi’n siarad am sut mae hi’n defnyddio adborth clywedol yn Turnitin i wella’r adborth y mae’n ei ddarparu i fyfyrwyr.

Mae’r gynhadledd hefyd yn gysylltiedig â datblygiad proffesiynol. Mae rhoi sgwrs yn y gynhadledd yn ffordd i staff roi rhywbeth yn ôl i’w cydweithwyr, sydd yn ethos gref yma - cymuned o arfer sy’n symud i’r un cyfeiriad i wella profiad dysgu’r myfyriwr.“

**Sut oedd y gynhadledd eleni?**
Arbennig! Gan adeiladu ar lwyddiant y ddwy gynhadledd flaenorol, cawsom lawer o gynigion ar gyfer sgyrsiau ac roedd dros 100 wedi mynychu. Adleolwyd y Tanc Meddwl i gyntedd Llandinam, sy’n ddelfrydol ar gyfer sesiynau poster a rhannu profiadau.

**Uchafbwynt y gynhadledd eleni?**
Ein prif siaradwr allanol, Alison James, yn sicr oedd yr uchafbwynt. Siaradodd Alison am addysgu rhyngweithiol a ffyrdd o ddefnyddio gwrthrychau corfforol megis Lego i ennyn diddordeb myfyrwyr mewn dysgu. Siaradodd am ddod â’r holl synhwyrau at ei gilydd i chwarae i wneud y cynnwys yn fwy cofiadwy.

“Uchafbwynt arall oedd sesiwn panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Ysgol Penglais a Choleg Ceredigion, gan drafod yr heriau mae myfyrwyr yn eu hwynebu wrth symud o ysgol neu goleg i brifysgol a ffyrdd y gallwn eu cefnogi.

Gwnaeth hyn i mi feddwl am yr hyn yw Prifysgol Aberystwyth - lle cyfeillgar a chefnogol lle gall myfyrwyr ddod i adnabod staff ar lefel bersonol fel rhan o gymuned.

Trydydd uchafbwynt oedd gweithio gyda’n hyfforddai graddedig Aber Ymlaen, Liz Talbott. Cynlluniodd Liz poster y gynhadledd, rhoi’r achos at ei gilydd, cynnal sesiynau cymedroli a chynorthwyodd i baratoi deunyddiau’r gynhadledd. Roedd hi’n gaffaeliad gwirioneddol gan ddod â llawer o greadigrwydd, deallusrwydd a brwdfrydedd i’r ochr sefydliadol.

**Beth sy’n newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod?**
Unwaith eto, mae’r ffocws ar wella profiad y myfyriwr. Mae myfyrwyr wir yn hoffi recordio darlithoedd, ac rydym wedi gwneud rhai newidiadau eleni i’w gwneud yn haws fyth i ddal darlithoedd gan ddefnyddio Panopto.

Mae’r Porth Dysgu CADARN wedi cael ei ymestyn am flwyddyn arall. Mae hynny’n golygu y bydd hyfforddi gan staff technegol CADARN ar gael i helpu darlithwyr i wneud fideos. Mae gennym feddalwedd golygu fideo ar-lein, WeVideo, gall yr holl staff ei ddefnyddio - dim ond i chi gofrestru ar safle Porth Dysgu CADARN a chofrestru ar gyfer grŵp Aberystwyth.

Mae hefyd rhai ffyrdd newydd o ddefnyddio’r offer e-gyflwyno, Turnitin, sy’n ei gwneud yn haws i fyfyrwyr dderbyn eu hadborth. Roedd hi’n braf clywed Lauren Marks, Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr, yn disgrifio’r defnydd o Turnitin fel rhywbeth sy’n ‘newid bywyd’.

**Beth sydd nesaf ar gyfer y gynhadledd?**
Rydym yn sicr yn gobeithio cynnal pedwaredd Cynhadledd Dysgu ac Addysgu yn 2016, y tro hwn ar ddechrau’r haf. Rydym hefyd yn cynllunio ‘ffair arfer da’ fach yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

**Ble alla i ddysgu mwy am y gynhadledd ei flwyddyn?**
Ewch i wefan Nexus www.nexus.aber.ac.uk, lle rydym yn cyhoeddi recordiadau, cyflwyniadau PowerPoint a deunyddiau eraill o’r gynhadledd.

## Ynglŷn â Mary Jacob


Mary Jacob, Ymgynghorydd E-ddysgu

Fel Ymgynghor-ydd E-ddysgu, mae Mary Jacob yn aelod o’r Grŵp E-Ddysgu yn adran Gwasanaethau Gwybodaeth y Brifysgol. Mae hi’n cydlynu peth o’r gwaith rhwng Porth Dysgu CADARN a’r Brifysgol.

Ymunodd Mary â’r Brifysgol ddeng mlynedd yn ôl o Brifysgol Davis yn California (UC Davis), lle’r oedd yn ddarlithydd mewn iaith a llenyddiaeth Tseineaidd. Yn raddedig o San Diego State University lle bu’n astudio Saesneg ac elfen gref Dseiniaidd, bu Mary yn dysgu Saesneg yn Tsieina cyn dychwelyd i astudio gradd Meistr mewn Astudiaethau Rhanbarthol Dwyrain Asia ym Mhrifysgol Harvard.

Yn ystod ei hamser ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae hi wedi cwblhau Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU), wedi derbyn Cymrodoriaeth Addysgu Aberystwyth, a daeth yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch. Ar hyn o bryd mae’n astudio ar gyfer PhD mewn Ysgrifennu Creadigol yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ac yn anelu at fod yn Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch.

# Penodiadau



### IEITHOEDD MODERN

Penodwyd **Dr Wini Davies** yn Bennaeth Ieithoedd Modern. Wedi graddio o Brifysgol Manceinion gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Almaeneg a Sbaeneg, bu'n dysgu Saesneg ym Mhrifysgolion Mannheim a Heidelberg cyn dychwelyd i Fanceinion i fod yn ddarlithydd mewn Almaeneg. Yn 1988, cafodd ei phenodi'n ddarlithydd yn yr hyn oedd yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd a chafodd ei dyrchafu'n ddarllenydd yn 2006.



### Y GANOLFAN EHANGU CYFRANOGIAD A CHYNHWYSIANT CYMDEITHASOL

Penodwyd **Dr Debra Croft** yn Gyfarwyddwr Cydraddoldeb. Bydd yn dal y swydd ochr yn ochr â'i rôl fel Rheolwr y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol.

Gan weithio ochr yn ochr â Grŵp Gweithredol y Brifysgol, bydd Dr Croft yn gyfrifol am ddatblygu, cyhoeddusrwydd a sicrhau cyfeiriad strategol y Brifysgol mewn cydraddoldeb ac am sicrhau canlyniadau yn cael eu monitro a'u cyflwyno'n llwyddiannus.

Mae Dr Croft yn raddedig o Brifysgol Llundain (Daeareg / Gwyddor yr Amgylchedd), gan gwblhau MSc mewn Daeareg Mwyngloddio ym Mhrifysgol Caerwysg, a PhD mewn Geowyddoniaeth Fforensig o Lundain. Mae hi wedi cwblhau tystysgrif ôl-raddedig, Addysgu a Dysgu mewn Addysg Uwch, gyda'r Brifysgol Agored, ac mae'n Gymrawd o'r Academi Addysg Uwch.

### GWASANAETHAU MASNACHOL



**John Glasby** yw Pennaeth newydd Gwasanaethau Masnachol. Mae'n ymuno â'r Brifysgol o Undeb y Myfyrwyr lle'r oedd yn Brif Swyddog Gweithredol ers 2012. Mae John yn raddedig mewn economeg o Brifysgol Essex, ac yn dod â blynyddoedd o brofiad mewn cynllunio strategol a masnachol.

Mae rôl newydd y Pennaeth Gwasanaethau Masnachol wedi ei chynllunio i adolygu ac ail-lunio holl weithgareddau masnachu'r Brifysgol gyda ffocws ar greu model masnachu cynaliadwy, cynhyrchu gwargedion cynyddol i'w ail-fuddsoddi yn y profiad myfyrwyr.

### Y GYFRAITH

**Dr Brendan Coyle**, Darlithydd mewn Troseddeg.
**Heather Norris**, Cymrawd Addysgu mewn Troseddeg.

### BUSNES A RHEOLAETH

**Dr Jane Nolan**, Darllenydd mewn Rheoli Rhyngwladol.
**Ms Ratnes Alahakone**, Darlithydd mewn Rheolaeth.
**Yr Athro Jo Crotty**, Athro Rheoli.

### SWYDDFA ANSAWDD A CHOFNODION ACADEMAIDD

**Sue Moss**, Swyddog Ansawdd sy'n gyfrifol am Ddarpariaeth Gydweithredol.

### GWLEIDYDDIAETH RHYNGWLADOL

**Matthew Rees**, cyd-addysgu cyfrwng Cymraeg, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

### CYFRIFIADUREG

**Dr Laurence Tyler**, Cymrawd Addysgu mewn Roboteg a Gofod Roboteg.
**Dr Karen Hunsdale**, Darlithydd yng Nghampws Mawrisiws.
**Dr Harry Strange**, darlithydd mewn Cyfrifiadureg.
**Dr Neil MacParthalain**, Cymrawd Ymchwil.

### CYMRAEG

**Dr Peadar Ó Muircheatraigh**, Darlithydd
**Eirug Salisbury**, Darlithydd
**Dr Richard Glyn Roberts**, Darlithydd
**James January-McCann**, Cymrawd Dysgu

### GWASANAETHAU MYFYRWYR

**Lou Harding**, Rheolwr Lles
**Lawrence Railton**, Uwch Gynghorydd
**Hussam Al Nawab**, Cwnselydd Myfyrwyr
**Kate Shelley**, Cynghorydd Lles

### GWASANAETHAU LLYFRGELL

**Elen Howells**, Cynorthwy-ydd Llyfrgell
**Lloyd Roderick**, Llyfrgellydd Pwnc
**Martin Taylor**, Rheolwr Casgliadau, Adnoddau a Cyfleusterau Llyfrgell

# Ymddeoliadau

**Anne Jones**

Dechreuodd Anne Jones weithio fel cynorthwy-ydd gweinyddol achlysurol yn y Swyddfa Personél yn IGER, Plas Gogerddan, ym Mai 1992. Gadawodd Anne am gyfnod byr yn Rhagfyr 1992 ond dychwelodd yn fuan yn Ionawr i weithio yn yr adran cyfrifon lle yr arhosodd hyd yr uno â Phrifysgol Aberystwyth yn Ebrill 2008 pan weithiodd fel derbynyddes hyd nes iddi ymddeol ym mis Mehefin eleni.

Hoffai cyfeillion a chydweithwyr Anne yn IBERS ddiolch o galon iddi am yr holl gymorth a chefnogaeth a roddodd dros yr holl flynyddoedd y bu'n gweithio yn IGER ac IBERS a dymuno iddi bob hapusrwydd yn ystod ei hymddeoliad.

**Chris Wilkins**

Dechreuodd Chris Wilkins weithio yn Llyfrgell Gwyddorau Gwledig Coleg Prifysgol Cymru rhwng 1971-1982, gan ddod yn ôl i weithio yn Llyfrgell Hugh Owen yn 1990 fel Cynorthwy-ydd Llyfrgell. Rôl Chris drwy gydol ei hamser yn y llyfrgell oedd cefnogi myfyrwyr i ddod o hyd i lyfrau, cyfnodolion ac adnoddau i gefnogi eu hastudiaethau. Addasodd Chris yn llwyddiannus iawn i wasanaethau llyfrgell oedd yn gynyddol ddigidol o'r 1990au cynnar ymlaen, gan ganu'n iach i'r catalog cerdyn printiedig a chofleidio'r catalog llyfrgell ar-lein newydd a ffynonellau o wybodaeth ar-lein gan gynnwys gwasanaethau cronfa ddata ar-lein cyntaf o'r fath drwy ddeialu megis BID i e-lyfrau newydd ac e-gyfnodolion heddiw. Rhoddodd gymorth di-ffael a siriol i'r holl fyfyrwyr i ddod o hyd a defnyddio adnoddau a gwasanaethau llyfrgell ac roedd yn barod iawn i helpu gydag ymholiadau cyfeiriadaeth a thraethodau. Ymddeolodd Chris ym mis Mehefin 2015 a gwelir ei heisiau nid yn unig oherwydd ei gwybodaeth enfawr o gasgliadau llyfrgell a'i chefnogaeth ardderchog i fyfyrwyr a staff ond hefyd fel cydweithiwraig hyfryd.

# Marwolaethau

**Yr Athro Lance Thomas**

Gyda thristwch mawr y nodwn farwolaeth Yr Athro Emeritws Lance Thomas, cyn-Bennaeth yr Adran Ffiseg yn y Brifysgol, a fu farw Mehefin 30, 2015.

Yn raddedig o Goleg Prifysgol Cymru Abertawe, datblygodd Lance Thomas enw da yn rhyngwladol am waith arloesol mewn ffiseg atmosfferig ac fe'i penodwyd i staff Gorsaf Ymchwil Radio yn Slough a Labordy Appleton.

Chwaraeodd rôl genedlaethol mewn gweinyddiaeth gwyddoniaeth, gan wasanaethu ar bwyllgorau y Cynghorau Ymchwil a hefyd corff llywodraethol y Sefydliad Ffiseg. Cafodd ei enw da ei gydnabod gan y Sefydliad Ffiseg yn 1991 pan y dyfarnwyd Medal a Gwobr fawreddog Chree iddo. Fe'i urddwyd yn Gymrawd er Anrhydedd gan Brifysgol Abertawe yn 1998 ac fe'i etholwyd yn Gymrawd

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2014.

**Dr Suresh Swain**

Ymunodd Suresh ag IBERS yn 2010 i weithio ar raglen ôl-ddoethurol a ariannwyd gan BBSRC, ar ôl treulio amser yn Ysgol Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd a'r Ysgol Gwyddorau Biofeddygol, Coleg y Brenin, Llundain. Ar ôl cwblhau ei waith ôl-ddoethuriaeth, symudodd Suresh ymlaen i fod yn un o'r tîm biowybodeg craidd yn IBERS, gan arbenigo yn y dadansoddiad a chynulliad o ddilyniannau genom a transcriptome. Gwnaeth Suresh gyfraniad arbennig o arwyddocaol ac unigryw i'r gwaith o ddatblygu'r drafft cynulliad genom ar gyfer rhygwellt parhaol ac mae'r datblygiadau diweddar a wnaed yn y maes hwn ddyledus iawn i'w ymdrech. Roedd Suresh yn hynod frwdfrydig am ei waith, gan gymryd pleser mawr wrth ddatblygu ei sgiliau ei hun a galluogi a chynorthwyo cydweithwyr yn yr adran i gyflawni eu nodau ymchwil eu hunain. Bob amser yn siriol a defnyddiol, roedd yn ŵr bonheddig o'r iawn ryw a bydd colled fawr ar ei ôl. Mae'n gadael ei wraig, Rajashree, a dwy ferch ifanc.

**Ren Brzeski**

Ymunodd Ren â'r Brifysgol yn 1999, gan weithio yn gyntaf gyda'r tîm ôl-raddedig cyn symud i'r tîm israddedig fel ysgrifennydd y Cyfarwyddwr Denu a Derbyn.

Wrth dalu teyrnged iddi, dywedodd Nerys Davies, cydweithrwaig a Rheolwr Swyddfa Derbyn Myfyrwyr Israddedig, "Roedd Ren yn aelod amhrisiadwy o'r tîm denu a derbyn ac yn gyfeilles garedig a gofalgar. Roedd hi'n arddwraig frwd iawn, yn mwynhau cerdded ac yn hoff o brofi ei sgiliau iaith wrth fynd dramor ar wyliau gyda'i gŵr. Byddwn yn gweld ei heisiau ac yn cofio amdani'n gynnes iawn."

**Mike Corlett**

Yn wreiddiol o Formby, Glannau Mersi, graddiodd Mike o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1972 gyda gradd gyfun er anrhydedd mewn Celf a Llyfrgellyddiaeth.

Daeth yn Gynorthwy-ydd Llyfrgell rhan-amser ym mis Gorffennaf 1972, ac yna'n Lyfrgellydd Cynorthwyol llawn-amser yn Adran Caffaeliadau'r Llyfrgell, lai na blwyddyn yn ddiweddarach.

Yn 1983 cafodd ei benodi yn Uwch Gynorthwy-ydd Llyfrgell yn Llyfrgell Hugh Owen, a dros ddegawd yn ddiweddarach yn 1997 fe'i penodwyd yn Llyfrgellydd Cynorthwyol yn Gwasanaethau Gwybodaeth.

Bu Mike hefyd yn Ysgrifennydd Cangen UNSAIN y Brifysgol rhwng 1996 a 2014.

Meddai Trysorydd Cangen UNSAIN y Brifysgol, Alex Warburton: "Roedd Mike yn hynod o wybodus a phrofiadol, ac yn uchel ei barch gan aelodau UNSAIN yma ym Mhrifysgol Aberystwyth; yr oedd yn ymroddedig ac yn garedig wrth gynrychioli ein haelodau, a bydd yn cael ei gofio yn annwyl gan bawb am yr hyn a wnaeth i'n haelodau a'r Gangen dros lawer o flynyddoedd."

Tu hwnt i'w waith academaidd, diddordeb mawr Mike oedd celf, ac roedd yn gasglwr brwd o lyfrau ar y pwnc. Ymddeolodd Mike ar ddiwedd 2014.

**Yr Athro David Andrew Trotter**

Yr Athro Trotter oedd pennaeth yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd.

Graddiodd yr Athro Trotter fel Doethur mewn Athroniaeth o Goleg y Frenhines Rhydychen, ac roedd yn un o brif arbenigwyr y wlad ar Eingl-Normaneg. Ar ôl gweithio fel Cymrawd Iau Laming yng Ngholeg y Frenhines Rhydychen, symudodd i Brifysgol Caerwysg yn 1985 lle bu'n dysgu ieithyddiaeth Ffrangeg modern tra'n gyfrifol am holl waith canoloesol yn yr Adran Ieithoedd Modern ar yr un pryd.

Cafodd ei benodi i Gadair y Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan ddechrau ym mis Hydref 1993 gan ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol Pennaeth Adran ar yr un pryd. Cyflawnodd rôl Deon Cyfadran y Celfyddydau rhwng 1996 a 2000 a pharhaodd fel Pennaeth Adran yn ystod ei holl gyfnod yn Aberystwyth.

Roedd ymchwil yr Athro Trotter yn rhychwantu ieithyddiaeth Ffrangeg hanesyddol, Ffrangeg y canoloesoedd, tafodieitheg ganoloesol, ac yn arbennig Ffrangeg y dwyrain. Ef hefyd oedd yn arwain y Geiriadur Eingl-Normaneg a gyllidir gan Gyngor Ymchwil y Dyniaethau a'r Celfyddydau (AHRC) ac sydd wedi'i leoli yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Roedd yn Llywydd y Société de Linguistique Romane (2013-16), yn gyfrannwr (ar Ocsitaneg) i'r Romanische Bibliographie (De Gruyter), yn aelod o Goleg Adolygu gan Gydweithiwyr yr AHRC ac yn Adolygydd Strategol ar gyfer y AHRC.

Wrth dalu teyrnged i'r Athro Trotter, dywedodd yr Athro April McMahon: "Mae marwolaeth annhymig yr Athro David Trotter yn golled enfawr i ymchwil ac ysgolheictod. Roedd ganddo enw da rhagorol a haeddiannol fel hanesydd o'r Ffrangeg, ac roedd yn arbennig o adnabyddus am ei brosiect Geiriadur Eingl-Normaneg, a enillodd gyllid a chydnabyddiaeth sylweddol.

CHWYDDWYDR

# Yn ogystal â'r swydd bob dydd...

Mae Catrin Fflur Huws yn ddarlithydd yn y Gyfraith a chydlynydd darpariaeth dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg Adran y Gyfraith a Throseddeg, ac mae'n arbenigo ar Gyfraith Tir, Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedau a statws gyfreithiol yr iaith Gymraeg. Yn ychwanegol at ei gwaith bob dydd mae Catrin yn ddramodydd ac mae ei drama *To Kill a Machine* wedi bod ar daith drwy Gymru ac wedi ymddangos yn ddiweddar yng Ngŵyl Caeredin.



**Sut daethoch chi i ymddiddori mewn ysgrifennu dramâu?**

Roeddwn i'n rhan o Castaway, y grŵp theatr cymuned yng Nghanolfan y Celfyddydau, ac fe ysgrifennais rai golygfeydd i sioe a ddyfeisiwyd dan yr enw Return to Albion yn 2008 ac roeddynt yn bur llwyddiannus. Yna bûm yn dilyn rhai o fodiwlau ysgrifennu creadigol y Brifysgol Agored, ac yn 2011 cefais fy newis ar gyfer rhaglen i ysgrifenwyr oedd yn dechrau dod i'r amlwg o'r enw 'Spread the Word' gyda Sherman Cymru. Ysgrifennwyd fy nrama gyfredol, *To Kill a Machine*, fel rhan o hyn. Ar y cychwyn dewiswyd wyth awdur o ardal Aberystwyth a chafwyd perfformiad gyda sgriptiau yn y dwylo o dair ohonynt ar ddiwedd y cwrs ac roedd fy un i yn un o'r tair.

**Pryd y dechreuodd eich drama lwyddo?**

Fe'i perfformiwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn 2012 a chafodd dderbyniad gwirioneddol dda ac ar ôl hynny doeddwn i ddim eisiau colli fy ngafael arni. Cysylltais â 'Scriptography Productions' a pherfformiwyd fersiwn peilot ohoni ar gyllid bychan yn hydref 2012 yng Nghanolfan y Celfyddydau, y Sherman yng Nghaerdydd ac yn ystod dathliadau canmlwyddiant Alan Turing ym Mhrifysgol Abertawe.

Yna cyflwynwyd cais am gyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru ac am ariannu torfol 'Kickstarter' yn Ebrill eleni i fynd â hi ar daith o amgylch Cymru ac i fynd i Gaeredin. Aed ar daith ym mis Mai i ddeg man yng Nghymru a hefyd i Theatr Arcola yn Llundain. Cafwyd perfformiad yng Nghaerdydd ar 31 Gorffennaf i dwymo ar gyfer Caeredin, a buom yn perfformio bob nos ac eithrio nosweithiau Mawrth drwy gydol Gŵyl Caeredin yn y 'Zoo Aviary' oedd yn dal tua 50 o bobl.

Daeth yr ennyd cyntaf a aeth â'n gwynt pan berfformiwyd hi yn Abertawe i tua wyth deg o bobl yn nathliadau canmlwyddiant Alan Turing Prifysgol Abertawe – roedd brwdfrydedd cynulleidfa o gyfrifiadurwyr yn wirioneddol foddhaol. Ers hynny cafwyd pymtheg o berfformiadau ar y daith sy'n golygu cyfanswm o gynulleidfa o tua 800 o bobl. Rwy'n credu mai'r perfformiad mwyaf cyffrous i mi oedd yr un yn Llundain. Roedd perfformio yn Llundain yn rhywbeth arbennig iawn i'r cast ac fe fwriodd pawb iddi yn llawn egni. Roedd dagrau yn llifo i lawr wyneb Gwydion [Rhys, y prif actor] drwy gydol traean olaf y perfformiad.

**Beth yw pwnc eich drama?**

Mae'n ymwneud â bywyd, gwaith a marwolaeth Alan Turing; a hefyd am y ffordd mae cymdeithas yn gorfodi pobl i gydymffurfio. Mae'n ymdrin â'r ffaith ei fod yn hoyw ar adeg pan oedd hynny'n anghyfreithlon, ac iddo gael ei ddisbaddu'n gemegol, felly mae'n delio â'r syniad o ryw hefyd – beth sy'n gwneud dyn a beth sy'n gwneud dynes, a beth sy'n gwneud dyn a beth sy'n gwneud peiriant.

Roedd y ffilm *The Imitation Game* yn bwysig iawn i ddod â Turing i amlygrwydd. Pan ysgrifennais i'r ddrama gyntaf roedd ei enw yn anhysbys i lawer o bobl ac rwy'n credu bod y ffilm yn bwysig iawn yn amlygu'r stori. Rwyf o'r farn mai'r hyn mae fy nrama yn ei wneud yw dangos ei fod yn berson hynod o hoffus; mae *The Imitation Game* yn tueddu i'w bortreadu fel gŵr unig. Roedd yn ŵr mewnblyg ond





roedd hefyd yn bur boblogaidd, ac roedd yn ddoniol a ffraeth. Ond rwyf hefyd yn credu mai'r hyn mae fy nrama yn ei wneud yw normaleiddio ei berthynas â dynion eraill - mae'r ffilm ychydig yn ochelgar ynglŷn â'i rywioldeb ac yn ymdrechu gormod i ramanteiddio ei gyfeillgarwch gyda Joan Clark. Mae'r ddrama yn ymwneud llawer mwy gydag ef na gyda'i waith, ond mae ei waith yn goleuo llawer o'r ddeialog.

**Beth enynnodd eich diddordeb yn Alan Turing?**

Es i Bletchley Park a gweld ei stori ar y mur ac fel y cafodd ei farnu'n euog o anwedduster garw am ei fod yn hoyw ac y rhoddwyd hormonau benywaidd iddo. Ac yna gwelais erthygl roedd ef wedi ei hysgrifennu o'r enw *Computing, Machinery and Intelligence*, ynglŷn â all cyfrifiaduron feddwl, sy'n dechrau drwy ofyn "Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dyn a dynes?" a meddwl nad oes unrhyw wahaniaeth yn nhermau â phwy rydych chi'n syrthio mewn cariad, ac yna, pan roir hormonau benywaidd i ddyn, bod y polaredd du a gwyn gwryw a benyw yn dod yn llawer mwy amwys.

**Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y ddrama ar ôl Caeredin?**

Os daw'r cyfle, y cynllun yw mynd ar daith eto yn y dyfodol, teithio'r byd os gallwn ac mae Aberystwyth yn lle da i gychwyn ohono! Mae pobl o Awstralia a Los Angeles wedi mynegi diddordeb, felly os ceir adolygiadau da yng Nghaeredin mae'n debyg y byddwn yn mynd ar daith eto yn 2016. Credaf bod tua 800 o bobl wedi ei gweld yn barod ac mae wedi cael adolygiadau gwych yn gyffredinol am yr ysgrifennu a'r perfformiadau, ac mae'r person sy'n chwarae Alan Turing, Gwydion Rhys, wedi bod yn rhan ohoni drwy'r adeg ac mae'n wych. Roedd Robert Harper, sy'n chwarae'r holwr, yn rhan o'r darlleniad gwreiddiol ac o daith 2015. Mae'r cast yn un gwirioneddol ryfeddol, maent yn dalentog dros ben a'm gobaith yw y byddant yn dal i fod yn rhan o'r ddrama.

Rydw i'n falch iawn ohoni ac mae'r cyfarwyddwr wedi ei throsglwyddo oddi ar y dudalen i'r llwyfan yn llwyddiannus dros ben. Rwyf wedi derbyn llawer o gymorth gan yr Adran Gyfrifiadureg, ac mae cyfrifiadurwyr wedi ei mwynhau a'i chefnogi, a bu fy nghydweithwyr yn Adran y Gyfraith yn gefnogol iawn hefyd.

Y prif beth i mi yw bod cymaint ag sy'n bosibl o bobl yn ei gweld ac yn sylweddoli pa mor niweidiol yw effaith rhagfarn ar bobl go iawn.

***'Mae To Kill a Machine yn ateb amheuthun i'r ymdrechion diweddar i saniteiddio stori Alan Turing wrth sefyll ar ei thraed ei hun fel drama annibynnol.***

***Peidiwch â disgwyl rhyw stori lastwraidd am fachgen od ond dymunol sy'n digwydd bod yn hoyw. Na, mae hon yn bwrw golwg rymus ar natur dynoliaeth pan ddaw wyneb yn wyneb â pherson sydd ddim – neu efallai na all – gydymffurfio.'***

**Mike Smith, Arts Scene in Wales**



**BETH SY'YMLAEN**

**ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF**

**F. C. Dixon & Chydweithwyr**

Printladau gan Frederick Clifford Dixon (1902-1992) a'i gydweithwyr.

**30 Tachwedd – 15 Ionawr 2016**



## F. C. Dixon & Chydweithwyr

*Printiau gan Frederick Clifford Dixon (1902-1992) a'i gydweithwyr*

Astudiodd Frederick Clifford Dixon gelfyddyd gwneuthur printiau yn y Coleg Celf Brenhinol rhwng 1924 a 1928. Gyda chymorth Martin Ridgwell, y Prif Wneuthurwr printiau a Chymrawd o Gymdeithas Frenhinol y Gwneuthurwyr Printiau a Dyfrlliwiau, ac mae ei or-nithod, Suzy Williams a Sally Taylor, wedi catalogio, adfer ac ail-brintio gwaith o'i blatiau.

Mae Martin wedi defnyddio ei holl sgiliau i anadlu bywyd newydd i'r hen blatiau ysgythru ac i adfywio'r ysgythriadau cymhleth a hardd eu gwneuthuriad sy'n denu, yn ysbrydoli ac yn cyfleu ymdeimlad o'r cyfnod yn rhyfeddol.

Mae gwaith F.C. Dixon wedi cael ei arddangos yn y gorffennol yn Adran Printiau a Darluniau yr Amgueddfa Brydeinig ac yn Oriel Barbican.

Mae'r arddangosfa hon yn cyfannu casgliadau helaeth yr Ysgol Gelf o gelfyddyd graffig (peintiadau, darluniau, ffotograffau a dyfrlliwiau), sy'n amlygu casgliad cenedlaethol pwysig o ysgythriadau o'r blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd gan artistiaid enwog megis Graham Sutherland a Robin Tanner.

**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH**

## Ystafelloedd Artist: Robert Arddangosfa Mapplethorpe

**Tan 7 Tachwedd**

Ar gyfer ein prosiect gyntaf gydag Ystafelloedd Artist, rydyn ni'n cyflwyno arddangosfa o ffotograffiaeth Robert Mapplethorpe.

Mae Mapplethorpe yn un o artistiaid allweddol diwedd yr 20fed ganrif ac rydyn ni'n hynod o falch ein bod yn gallu dod â'r casgliad pwysig hwn o'i waith i Aberystwyth.

Mae'r arddangosfa sy'n cwmpasu hunanbortreadau a phortreadau o'i yrfa gyfan yn ogystal â nifer fechan o ddarluniau blodau a bywyd llonydd yn galluogi cynulleidfaoedd yng Nghymru i brofi peth o ansawdd ac ystod holl waith hynod Mapplethorpe.




## Dreams of Anne Frank

**17 - 20 Tachwedd**

Ym 1942 gorfodwyd Anne Frank, Iddewes ifanc, i guddio gyda saith o bobl arall mewn rhandy dirgel yn Amsterdam. Mae'r sioe hon yn cyflwyno ei stori mewn drama deimladwy a phŵerus.

## Saturday Night Forever

**17 Tachwedd & 4-5 Rhagfyr**




Taith anturus drwy fywyd nos Caerdydd wrth i ddyn hoyw, Lee, ddod â'i berthynas ag un cariad i ben ac addo na fydd byth yn syrthio mewn cariad eto. O'i gwmpas ymhob man mae pobl sy'n yfed gormod ac yn dawnsio hyd yr oriau mân ac yn mwynhau i'r eithaf tra medrant. Ond pan gaiff Lee wahoddiad i barti cynhesu tŷ ffrind mae'n ymddangos bod pethau ar fin newid. Dim ond saith awr a photelaid o fodca mae'n ei gymryd ac mae'r diafol ar ei ysgwydd yn gwneud iddo dorri ei addewid a syrthio i freichiau ei edmygydd newydd.

Mae *Saturday Night Forever* yn dilyn Lee ar daith drwy ddinistr ei berthnasoedd yn y gorffennol a chamau cyntaf carwriaeth newydd addawol. Am gyfnod byr mae bywyd yn felys iawn, ond ar ôl pob nos Sadwrn daw realiti oer bore Sul, ac mae Lee yn darganfod yn greulon iawn, nad oes dim byd yn para am byth.

Bydd y cynhyrchiad yn teithio lleoliadau yng Nghymru a Lloegr drwy gydol Tachwedd a Rhagfyr 2015, ac mae'n cael ei noddi gan Gyngor y Celfyddydau Cymru.

## The Night Before Christmas:

### Sioe Theatr Gymunedol Canolfan y Celfyddydau

**18, 19 & 22 Rhagfyr - 7.30pm**
**23 Rhagfyr - 2.30pm**

*'Twas the night before Christmas, when all through the house*
*Not a creature was stirring, not even a mouse...*

Ymunwch â ni unwaith yn rhagor ar gyfer ein sioe deuluol cyn-Nadoligaidd hynod boblogaidd! Bydd *The Night Before Christmas* yn cyflwyno goreuon y theatr gerdd gyfoes a chlasurol a hynny'n llawn o flas yr Ŵyl.

Rhowch gychwyn ar dymor y Nadolig gydag amser hudolus i'r teulu oll gyda chaneuon a charolau hyfryd a datganiadau Nadoligaidd clasurol!